Arwyn Williams.
Pennaeth Dysgu / Head of Learning

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

ffôn/tel: (01248)752901 ffacs/fax:

Gofynnwch am - Please ask for: Idris Parry

ffôn/tel 07825106718

E-Bost - E-mail: jipfi@ynysmon.gov.uk
Ein Cyf - Our Ref. JIP/dho
Eich Cyf - Your Ref.

**AT / TO**
Rhiant/Gwarcheidwr / Parent/Guradian

**DISGYBLION BLWYDDYN / YEAR 6 PUPILS**

9/4/18

Annwyl Rhiant / Gwarcheidwr,

**Tocynnau Teithio 2018 2019.**

Fel y gwyddoch mai'n siŵr daeth y Cyngor i benderfyniad yn Rhagfyr 2014 i newid y drefn o gasglu costau cludiant. Yn Hydref 2015 roedd angen i ddisgyblion Blynyddoedd 7 i 11 **sydd yn byw llai na 3 milltir o'u hysgol** dalu am docyn bws am y flwyddyn ysgol. Roedd hyn yn disodli'r drefn o dalu arian parod ar y bws yn ddyddiol.

Mae gan y Cyngor cynllun seddi gweigion ble y gall disgyblion sydd yn mynychu ysgolion tu allan i'w dalgylch dalu am docyn bws os oes sedd wag ar fws cyfleus.

Cyflwynwyd y cynllun tocyn teithio er mwyn sicrhau bod pob disgybl efo sedd, ac er mwyn gallu gwella diogelwch drwy adnabod pa blant sydd i fod ar ba fws os digwydd damwain neu os yw bws yn torri i lawr. Yn ogystal â hyn, daeth yn amlwg bod nifer o blant oedd i fod i dalu fesul siwrnai, heb fod yn gwneud hynny.

Drwy ofyn i bawb gael tocyn gallwn sicrhau fod pawb sydd i fod yn talu, yn gwneud hynny'n ddiwahân.

## Costau am 18/19 yw

Disgyblion Blwyddyn 7 – 11(**sydd yn byw llai na 3 milltir o'u hysgol)** - £116

Dear Parent / Guardian,

**Travel Passes; 2018 2019**

As you probably know the Council came to a decision in December 2014 to change the procedure of collecting transport costs. As from October 2015 it was necessary for Year 7 to 11 pupils **who live less than 3 miles from their school** to pay for a bus pass. This supplanted the procedure of paying ready cash on the bus daily.

The Council has a vacant seat scheme whereby pupils who attend a school outside of their catchment area can pay for a vacant seat if there is a vacant seat on a suitable bus.

The travel pass plan was introduced to ensure that every pupil had a seat, and in order to be able to improve safety by identifying which pupils are supposed to be on which bus should an accident occur or should a bus break down. In addition to this, it has become apparent that a number of pupils who were supposed to pay journey by journey, had not been doing so.

By asking everyone to have a pass we can ensure that everyone who is supposed to do so is paying, and do so indiscriminately.

## The cost for 18/19 is.

Pupils in Years 7 to 11 (**who live less than 3 miles from their school)** - £116

Dysgwyr Blwyddyn 12 ac 13 - £130

Cynllun Seddau Gweigion - £160

Yn yr hinsawdd gyllidol heriol drosben sy'n wynebu'r Cyngor Sir, credwn fod gofyn i rieni gyfrannu'r uchod tuag at gludo eu plant i'r ysgol yn un rhesymol iawn.

Yn ogystal nid oes rhaid cynnig y gwasanaeth cludiant i ddisgyblion sy'n byw o dan dair milltir o'r ysgol uwchradd. Golyga hyn bod y Cyngor yn sybsideiddio trafnidiaeth disgyblion sydd heb hawl iddo, hyn ers llawer o flynyddoedd.

Fe fydd y Cyngor Sir yn parhau i adolygu'r sefyllfa'n flynyddol o hyn ymlaen er mwyn sicrhau bod cost tocyn teithio yn agosáu at wir gost y gwasanaeth i'r dyfodol.

Rydym wedi sicrhau bod nifer o ffyrdd hyblyg o dalu yn raddol dros y flwyddyn ysgol i deuluoedd. Mae'r manylion i'w gweld ar y daflen ynghlwm.

Nid oes gan yr Awdurdod gynlluniau i gyflwyno cynllun sydd yn gwahaniaethu rhwng disgyblion o ran nifer y teithiau maent yn cymryd. O dalu am docyn mae hyn yn sicrhau sedd i'r disgybl ar y bws pryd bynnag mae o neu hi'n teithio. Ni thelir ad-daliadau heblaw eich bod wedi symud tŷ i fyw mwy na 3 milltir o'r ysgol ddalgylch.

**Os am docyn gofynnir i chwi lenwi'r ffurflen ynghlwm a'i ddychwelyd mor fuan â phosibl i**

Adain Drafnidiaeth, Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfa'r Cyngor, LLANGEFNI ,LL77 7TW.

Gellir cyflwyno unrhyw ymholiadau drwy e-bost i

AddysgEducation@ynysmon.gov.uk

**COFIWCH**

**NID OES ANGEN I DDISGYBLION BLYNYDDOEDD 7 I 11 GYFLWYNO CAIS GO**

Year 12 and 13 Learners - £130

Vacant Seat Scheme - £160

In the extremely challenging financial climate that faces the County Council, we believe that the requirement for parents to contribute the above towards transporting their children to school is a very reasonable one.

Additionally the transport service does not have to be offered to pupils who live under three miles from the secondary school. This means that the Council is subsidising the transport of pupils who are not eligible for it, and have done so for a number of years.

The County Council will continue to review the situation annually from now on to ensure that the cost of a travel pass approaches the true cost of the service for the future.

We have ensured that there are a number of flexible ways of paying gradually over the school year for families. The details are to be seen on the enclosed sheet.

The Authority does not have plans to present a scheme that differentiates between pupils according to the number of journeys that they take. In paying for a pass this ensures a seat for the pupil on the bus whenever he or she travels. No refunds will be paid except for those who move house to live more than 3 miles from their catchment area school.

**If you wish to have a pass you are requested to fill the attached form and return it as soon as possible to**

Transportation Section, Highways, Waste and Property, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, LLANGEFNI, LL77 7TW.

You may present any enquiry by email to

AddysgEducation@ynysmon.gov.uk

**REMEMBER**

**THERE IS NO NEED TO PRESENT AN APPLICATION FOR YEARS 7 TO 11 PUPILS**

**GYFER MEDI 2018 OS YDYNT YN BYW MWY NA 3 MILLTIR O'U HYSGOL DALGYLCH. BYDDENT YN DERBYN TOCYN CYN CYCHWYN TYMOR YR HYDREF.**

**FOR SEPTEMBER 2018 IF THEY LIVE MORE THAN 3 MILES FROM THEIR CATCHMENT SCHOOL. THEY WILL RECEIVE A PASS BEFORE THE START OF THE AUTUMN TERM.**

Yn gywir,

Yours truly,

Arwyn Williams
Pennaeth Dysgu / Head of Learning.